



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwasanaethau a thraffioedd
o phartneriaeth yng Nghymru trais
drosedd a thraffioedd yng Nghymru
a'i gwasanaethau ar y safleoedd
yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru

Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf

Putting Women & Children First



Enw:	<i>Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad Ebost:	<i>EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif Ffôn:	<i>02920 451 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma safbwytiau:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol traes yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrvpas yw atal cam-drin domestig, traes rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini yn wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holistig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraift, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treialu prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (SEEdS), sy'n grymuso

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid.sharepoint.com/sites/WWA/Shared/Engagement Team/Public>

Affairs/Consultations/Consultations 2019/WWA response to serious violence consultation - May '19

- FINAL WEL.docx



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Desgwyd i gwrando a chwilio am
operaeth yng Nghymru trais i ddilys
trias i ffwrdd a thraws yr adeg mae'r
wlad yn ymgynghoriad



goroeswyr traes a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddu.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma: <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

¹ Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector sy'n ymwneud â thras yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thras rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cyllynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys :Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), Stepping Stones, Safer Merthyr Tydfil, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grŵp Cynefin), Montgomeryshire Family Crisis Centre, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf , Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect Dyn), Cymorth i Fenywod Abertawe, Threshold, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



**Live Fear
Free Helpline**

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

**Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn**

Darparu gwasanaeth a chwaraegol
o galw ar ymddyngedig i ddarparu
tudalen a thraus yn unig iawn i'r
wlad yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru

Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf

Putting Women & Children First



Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ‘Dyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi dull amlasiantaeth o atal a mynd i’r afael â thrais difrifol’

Crynodeb o’r argymhellion

- Pwyswn ar Lywodraeth y DU i gydnabod y croesgysylltiadau a’r ffactorau ysgogol hynod glir sy’n sail i drais difrifol yng nghyd-destun gangiau a thrais yn erbyn menywod a merched, ac i weithredu arnynt.
- Galwn am fwy o gysylltiadau uniongyrchol rhwng traes yn erbyn menywod a mathau eraill o drais difrifol ynghyd â phrofiadau’n seiliedig ar rywedd a ddioddefir gan fenywod a merched ac a ddyylanwadir gan ddiwylliant gangiau.
- Pe bai ymagwedd iechyd cyhoeddus yn cael ei mabwysiadu ar gyfer traes difrifol, byddai’n rhaid ystyried enghreifftiau o’r arferion gorau o ymateb cymunedol cydgysylltiedig o fynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod,
- Camfanteisir yn rhywiol ar fenywod a merched a chânt eu treisio dan ddyylanwad diwylliant gangiau, a hynny oherwydd eu rhywedd – mae peidio â mynd i’r afael â hyn yn golygu gadael menywod a merched ifanc bregus yn agored i drais pellach.
- Effeithir mewn ffordd unigryw ar fenywod a merched gan yr arferion o gludo cyffuriau’n anghyfreithlon a ‘cwcŵio’ – lle manteisir arnynt yn rhywiol neu drwy bartner sy’n cam-drin – mae’n rhaid cael mesurau penodol yn eu lle i’w diogelu.
- Mae’r DU yn gyrchfan risg isel ond gwerth uchel ar gyfer masnachu mewn rhyw – pwyswn ar Lywodraeth y DU i fabwysiadu fframwaith deddfwriaethol sy’n ‘dileu’r galw’, neu Fodel Llychlynnaidd.

Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cyflwyno’r canlynol mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ‘Dyletswydd gyfreithiol newydd i gefnogi dull amlasiantaeth o atal a mynd i’r afael â thrais difrifol’. Yn hytrach na chwblhau’r ymgynghoriad llawn, fe ddrafftawyd y canlynol gennym i dynnu sylw

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962



Live Fear
Free Helpline

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

Darparu gwasanaeth a chwilio ar
abwâu, awyrau awdurdio a
wylfa ce agweddion i'r cymunedau
yng Nghymru.

0808 80 10 800



Cymorth i Ferched Cymru

Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf

Putting Women & Children First



at ein pryderon yngylch diffyg cysylltiadau cryf o fewn y maes hwn a'r gwaith o ddileu traus yn erbyn menywod a merched. Pwysefn ar Lywodraeth y DU i gydnabod y croesgysylltiadau a'r ffactorau ysgogol hynod glir sy'n sail i drais difrifol a thrais yn erbyn menywod a merched, ac i weithredu arnynt.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu bod peidio â mynd i'r afael â 'cham-drin rhywiol, caethwasiaeth fodern neu drais yn erbyn menywod a merched'¹ o fewn y strategaeth hon yn golygu anwybyddu profiadau'n seiliedig ar rywedd a ddioddefir gan fenywod a merched ac a dylanwadir gan ddiwylliant gangiau a thrais difrifol, a cholli cyfle i fynd i'r afael ag un o elfennau pwysicaf y mathau hyn o droseddau. 'Young people with intra-familial abuse in their histories, or those living with domestic abuse, are also said to be more vulnerable to peer-on-peer abuse'³ Er ein bod yn gwerthfawrogi bod yna strategaethau penodol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ac na fydd pob un o'r ffactorau sy'n ysgogi traus difrifol yr un peth â thrais yn erbyn menywod a merched, mae yna elfen o anghydraddoldeb rhywiol i'r troseddau hyn. Felly hoffem weld mwy o gysylltiadau uniongyrchol a chroesgysylltu strategaethau.

Teimlwn fod cyfle ar gael drwy fabwysiadu ymgwedd 'iechyd cyhoeddus' i groesgysylltu'r agendâu hyn. Mae gwaith aml-asiantaeth yn gyffredin o fewn y sector traus yn erbyn menywod. Mae'r ymateb cymunedol cydgyssylltiedig yn gweithio ar y sail bod yn rhaid i asiantaethau ar draws y sectorau gydweithio er mwyn mynd i'r afael â thrais a chamdriniaeth, gan gynnnyws: iechyd, yr heddlu, tai, y gwasanaeth prawf ac ati. Pe bai ymagwedd debyg yn cael ei mabwysiadu ar gyfer mathau eraill o drais difrifol, mae'n amlwg y byddai yna gyfle i rannu'r arferion a'r deallusrwydd gorau gyda'r sector arbenigol, lle bo'n briodol.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn glir mai prif ffactor ysgogol traus yn erbyn menywod a merched yw anghydraddoldeb rhywiol, hawliau dynion a gwrywdod gwenwynig. O'r herwydd, caiff ei gyflawni'n anghymesur gan ddynion ac fe effeithir yn anghymesur ar fenywod oherwydd hawliau dynion i bŵer a rheolaeth. Mae'r strategaeth ei hun yn cydnabod bod y cynnydd mewn troseddau cyllyll, traus gynnau a dynladdiadau yn cael ei ysgogi gan droseddu gan ddynion, y gellir ei gysylltu yn aml â gwrywdod gwenwynig. Yn ogystal â hyn, mae'r strategaeth yn cydnabod bod yna ffactorau risg penodol sy'n medru effeithio ar 'an individual's susceptibility to becoming a victim or perpetrator of serious violence, including domestic abuse'⁴. Pryderwn fod peidio ag ystyried y ffactorau sy'n arwain at drais yn erbyn menywod a merched a thrais difrifol arall fel rhai cysylltiedig, yn golygu peidio â mynd i'r afael yn llwyr ag achosion traus o'r fath, ac yn wir, nad yw'n gwneud digon i amddiffyn y bobl a effeithir ganddo. Mae prosiect Carlene Firmin, *MsUnderstood*, wedi darganfod bod 'young people have experienced physical, sexual and emotional abuse by peers as a means of survival in gang affected neighbourhoods'⁵. Mae ei hymchwil ar gam-drin gan gyfoedion yn glir bod yn rhaid i waith yn y maes hwn dorri ar draws diffiniadau o gam-drin domestig a thrais ieuencnid difriol, ymhliith eraill:

¹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/791253/SV_Legal_Duty_Consultation_Document.pdf

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid.sharepoint.com/sites/WWA/Shared/Engagement Team/Public>

Affairs/Consultations/Consultations 2019/WWA response to serious violence consultation - May '19

- FINAL WEL.docx



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Desgwyd i gwrthod a chwaraegu
cyfarfodion yng Nghymru trwy doethwyr
blodeuol a thraws yr adeg mae'r
wladce agawneg yn hysbysol



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First



'it is possible...that a young person could be sexually exploited by a partner who is gang associated...and who has also been physically abusive' ⁶.

Nododd adroddiad gan y Ganolfan Cyflawnder Cymdeithasol⁷ y camfanteisir yn benodol ar ferched a menywod ifanc o fewn diwylliannau gangiau, a hynny oherwydd eu rhyw. Cânt eu defnyddio fel cludwyr cyffuriau a chamfanteisir arnynt yn rhywiol. Defnyddir treisio fel arf o fewn diwylliannau gangiau, lle treisir merched fel rhan o ddefodau derbyn aelodau gwrywiadd newydd i giang, targedir merched hefyd gan gangiau croes er mwyn eu 'treisio i ddial'. Eto mae hyn yn dangos profiadau unigryw merched a menywod ifanc a effeithir gan ddiwylliant gangiau yn ogystal â'r profiadau unigryw o drais a chamfanteisio rhywiol difrifol y maen nhw'n eu dioddef. Mae'n glir y byddai peidio â mynd i'r afael â hyn yn o fewn strategaeth newydd ar drais difrifol yn gadael menywod ifanc a merched bregus mewn perygl.

Yn ein hymateb i dystiolaeth Pwyllgor Dethol [Materion Cartref](#) ar gaethwasiaeth fodern, rydym eisoes wedi tynnu sylw at ein pryderon ynghylch cludo cyffuriau'n anghyfreithlon. Yn ein dystiolaeth, fe bwysleisiwyd gennym y perygl ychwanegol sy'n wynebu menywod ifanc; efallai y cânt eu paratoi a'u gorfodi i feithrin perthynas rywiol amhriodol gydag aelodau gangiau ac efallai y byddant yn dioddef camfanteisio rhywiol neu'n cael eu pimpio i dalu dyledion cyffuriau. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn bryderus hefyd am yr arfer o 'cwcŵio' (mediannu cartref rhywun er mwyn ei wneud yn ganolfan masnachu cyffuriau), lle mae masnachwyr yn meithrin 'perthynas' gyda menyw fregus er mwyn manteisio ar ei chartref. Gall hyn arwain at gam-drin domestig, treisio a chamfanteisio rhywiol yn ogystal ag at garcharu, caethwasanaeth domestig a/neu ddigartrefedd.

Yn yr un ymateb, amlygwyd gennym eto bryderon ynghylch camfanteisio rhywiol. Amcangyfrifir bod hyn yn costio o leiaf £247.6 miliwn⁸ i'r DU bob blwyddyn a hwn yw'r math mwyaf cyffredin o gaethwasiaeth a gofnodwyd yn yn DU. Ar yr un pryd, mae masnachu mewn rhyw yn creu swm sylweddol o arian i droseddwyr a chaiff ei reoli yn aml trwy gangiau cyfundrefnol. Daeth ymchwiliad i gamfanteisio rhywiol cyfundrefnol, gan y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol⁹ ar Buteindra a'r Fasnach Ryw Fyd-eang yn 2018, i'r casgliad bod y DU yn gyrchfan risg isel ond gwerth uchel ar hyn o bryd i fasnachwyr rhyw. Yng Nghymru ceir cyfeiriad canologol yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru¹⁰ ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 a'i fframwaith cyflawni dilynol at gysylltiad rhwng caethwasiaeth fodern a menywod y camfanteisir anynt o fewn y diwydiant rhyw. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn mabwysiadu fframwaith deddfwriaethol sy'n 'dileu'r galw', fframwaith y cyfeirir ato yn aml fel y Model Llychlynnaidd neu'r Ddeddf Prynwr Rhyw

Mae profiadau menywod a merched o fewn diwylliant gangiau yn seiliedig ar rywedd, lle maen nhw'n llawer mwy tebygol o ddioddef camfanteisio rhywiol ac o gael eu treisio. Mae'n ymddangos bod y camfanteisio hwn yn digwydd ar draws y gwahanol fathau o droseddu o fewn cyd-destun traist difrifol a diwylliant gangiau. Felly rydym yn ategu'r pwyntiau a wnaed uchod sef bod Llywodraeth y DU yn ailystyried ei safbwyt ac yn ystyried cynnwys traist yn erbyn menywod o fewn y strategaeth hon.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid.sharepoint.com/sites/WWA/Shared/Engagement Team/Public>

Affairs/Consultations/Consultations 2019/WWA response to serious violence consultation - May '19

- FINAL WEL.docx



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwasanaeth a chwilio ar
operau'n byw sy'n ymddygiad
tudalen a ffwrdd a ffwrdd yr aleg ymhedid
yng Nghymru.



Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i Lywodraeth y DU am y cyfle i gyflwyno adborth ar y mater pwysig hwn. Byddem hefyd yn hapus i gyflwyno dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig bellach, pe bai angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch ein hymateb at:

Elinor Crouch-Puzey

Swyddog Polisi ac Ymchwil

EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk

02920541551

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid.sharepoint.com/sites/WWA/Shared/Engagement Team/Public Affairs/Consultations/Consultations 2019/WWA response to serious violence consultation - May '19>
- FINAL WEL.docx